# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

Lleoliad:

**Hybrid - Ystafelloedd Pwyllgora 1 a 2 a Chynhadledd Fideo drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Iau, 17 Tachwedd 2022

Amser: 11.31 - 14.19

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/13125

# Hybrid

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau o'r Senedd: | Jayne Bryant AS (Cadeirydd)<br>James Evans AS<br>Laura Anne Jones AS<br>Ken Skates AS<br>Buffy Williams AS<br>Heledd Fychan AS<br>Sioned Williams AS |
| Tystion: | Rocio Cifuentes, Childrens' Commissioner for Wales<br>Sara Jermin, Comisiynydd Plant Cymru<br>Kirrin Spiby-Davidson, Comisiynydd Plant Cymru<br>Rhun ap Iorwerth AS, Comisiynydd<br>Gareth Davies AS<br>Russell George AS<br>Jack Sargeant AS<br>Joyce Watson AS, Comisiynydd |

| | |
|---|---|
| | Sarah Murphy AS<br>Jane Dodds AS |
| Staff y Pwyllgor: | Naomi Stocks (Clerc)<br>Helen Finlayson (Clerc)<br>Claire Morris (Ail Glerc)<br>Tom Lewis-White (Ail Glerc)<br>Sarah Bartlett (Dirprwy Glerc)<br>Michael Dauncey (Ymchwilydd)<br>Rosemary Hill (Ymchwilydd)<br>Dr Paul Worthington (Ymchwilydd)<br>Sian Thomas (Ymchwilydd) |

## 1 Sesiwn friffio gyda Mind Cymru ynghylch yr adroddiad, 'Sortiwch y Switsh'

1.1 Cafodd yr Aelodau sesiwn friffio gan bobl ifanc ynghylch eu hadroddiad 'Sortiwch y Switsh'.

## 2 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i gyfarfod y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg.

1.2 Nid oedd unrhyw ddirprwyon.

## 3 Craffu ar Adroddiad Blynyddol Comisiynydd Plant Cymru ar gyfer 2021-2022

3.1 Bu'r Pwyllgor yn craffu ar Adroddiad Blynyddol y Comisiynydd, a gofynnodd yr Aelodau hefyd gwestiynau am wasanaethau i blant sydd wedi bod mewn gofal a blaenoriaethau'r gyllideb.

3.2 Cytunodd y Comisiynydd i ddarparu'r canlynol:

- Manylion am ba mor eang yr ymgynghorwyd â phlant a phobl ifanc wrth symud swyddfa; ac

- Ymateb y Comisiynydd i ymgynghoriad gan Lywodraeth Cymru ar ddiwygio'r rhai sy'n gadael gofal.

3.3 Oherwydd cyfyngiadau amser, cytunwyd y byddai'r cwestiwn nas gofynnwyd yn cael ei anfon at y Comisiynydd i gael ymateb ysgrifenedig.

## 4 Papurau i'w nodi

4.1 Cafodd y papurau eu nodi.

## 5 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 (ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod hwn.

5.1 Derbyniwyd y cynnig.

## 6 Craffu ar waith Comisiynydd Plant Cymru - trafod y dystiolaeth

6.1 Bu'r Pwyllgor yn trafod y dystiolaeth a glywyd yn ystod y sesiwn flaenorol. Cytunodd i fynd ar drywydd rhai o'r materion a godwyd yn ystod y sesiwn ar ffurf ysgrifenedig.

## 7 Gwrandawiadau cyn penodi Cadeirydd a Dirprwy Gadeirydd y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil - trafod y drefn

7.1 Cytunodd y Pwyllgor ar y dull o gynnal y gwrandawiad cyn penodi.